

Comisiwn y Cynulliad Assembly Commission

CCCC 2011 (Papur 4 Rhan 1)

Uno rhwydwaith Technoleg Gwybodaeth a
Chyfathrebu y Cynulliad (UNO)

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Dyddiad: 27 Ionawr 2011
Amser: 16.00
Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B
Enw a rhif ffôn yr awdur: Brian Davidge, estyniad 8879

Uno rhwydwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu y Cynulliad (UNO)

Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hynny ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn

1.0 Diben yr adroddiad a chrynodeb o'r prif faterion

1.1 Prosiect galluogi yw'r prosiect i uno'r rhwydwaith (UNO), ac mae wedi bod yn gyfrwng i ni fynd i'r afael â materion a nodwyd yn adolygiad ac ymgynghoriad i-change. Mae UNO yn ein galluogi i gyflwyno dulliau o weithio sy'n lleihau costau busnes ac sy'n gwella'r gwasanaethau a gynigir i bobl Cymru.

2.1 Y papur hwn yw'r adroddiad terfynol i'r Comisiwn ar y prosiect.

2.0 Argymhellion

2.1 Gwahoddir y Comisiwn i nodi:

- cyllideb derfynol y prosiect,
- y cynnydd a wnaed o ran y problemau sy'n weddill;
- y tasgau sy'n parhau mewn cysylltiad â'r prosiect; a
- crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd.

3.0 Trafodaeth

3.1 Mae prosiect UNO wedi creu system technoleg gwybodaeth a chyfathrebu fodern er mwyn galluogi'r Cynulliad i weithio'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, i wella parhad busnes ac i wneud dewisiadau priodol a chost effeithiol wrth ddarparu TGCh yn y dyfodol. Dyluniwyd y system ar sail ymgynghoriad trylwyr â'n holl ddefnyddwyr, sef Aelodau, eu staff a staff y Cynulliad. Rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2010, gosodwyd y system ar gyfer 800 o ddefnyddwyr mewn dros 100 o leoliadau, gan gynnwys Tŷ Hywel, swyddfeydd etholaethol a chartrefi. Trosglwyddwyd hanner cant o becynnau meddalwedd o'r hen system i'r un newydd. Nid prosiect cyffredin i ddiweddarau cyfarpar yn unig oedd hwn; newidiwyd y system gyfan, gan gynnwys canolfan ddata allanol a llwyfan gweithredu newydd.

Cyllideb

3.2 Y gyllideb derfynol a ddyrannwyd ar gyfer y prosiect gan y Comisiwn oedd £4.3m. Disgwylir mai £4.256m fydd cyfanswm terfynol y gwariant ar y prosiect. Ceir dadansoddiad o gyllideb y prosiect yn Atodiad A.

Datrys y problemau technegol sy'n weddill

3.3 Pan gaewyd y prosiect yn ffurfiol, roedd 10 mater technegol yn weddill heb eu datrys, ac fe'u rhoddwyd i TGCh neu Siemens. Bellach, mae'r nifer hwn wedi gostwng i wyth, ac anfonir adroddiadau ar eu hynt i aelodau'r bwrdd prosiect ac i Peter Black.

3.4 Datryswyd y problemau mewn cysylltiad â'r systemau gwaith achos a gyflenwyd gan blaid. Mae'r dasg o ddiweddarau system gwaith achos y Cynulliad wedi creu problemau, ond mae'r system bellach ar y parth newydd, ac mae profion wrthi'n cael eu cynnal. Ar hyn o bryd, mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu ar y cyd â staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Amserlennwyd y gwaith o brofi a derbyn y system gan ddefnyddwyr ar gyfer dydd Mercher, 26 Ionawr, ac os yw'n llwyddiannus, cytunir ar raglen i weithredu'r system ym mis Chwefror.

Camau i'w cymryd ar ôl y prosiect

- 3.5 Rhoddwyd y cyfrifoldeb am gymryd camau dilynol i staff. Mae'r tasgau yn cynnwys cwblhau'r gwaith o uwchraddio systemau gwaith achos y Cynulliad, gan integreiddio systemau trydydd partïon sy'n cael eu huwchraddio ar hyn o bryd fel eu bod yn gweithio ar system weithredu Windows 7, a datgomisiynu'r hen rwydwaith BF.
- 3.6 Cam olaf UNO yw cyflwyno cytundeb gwasanaeth cymorth newydd sy'n diwallu gofynion y Cynulliad, fel y'u canfuwyd gan i-change. Mae'r trefniadau newydd wrthi'n cael eu negodi â Siemens a Llywodraeth Cymru, fel y partïon i gontract Merlin.
- 3.7 Bwriad y Cynulliad yw cyflwyno'r lefelau gwasanaeth newydd mewn modd sy'n gwella gwasanaethau ac sy'n gost effeithiol. Mae'r cam olaf hwn hefyd yn cynorthwyo'r Cynulliad i symud yn agosach at gyflawni un o'i nodau strategol, sef "cynllunio seilwaith a model ar gyfer gwasanaeth TG sy'n seiliedig ar anghenion, blaenoriaethau a strategaeth y Cynulliad".

Gwersi a ddysgwyd yn sgil y prosiect

- 3.8 Cafwyd enghreifftiau o arferion da yn y prosiect hwn y byddwn yn eu defnyddio yn y dyfodol. Yn eu plith mae'r ymarferiad ymgynghori llwyddiannus ("i-change") i geisio barn pawb a datblygu manyleb y prosiect, a gafodd lawer iawn o atborth defnyddiol. Hefyd, roedd y deunydd cyfarwyddo a hyfforddi yn barod cyn rhoi'r prosiect ar waith a chafodd hynny dderbyniad da. Ar ôl cael amcangyfrif ffurfiol gan Siemens ym mis Chwefror 2010, roedd y rheolaeth ar y costau yn gadarn, ac roedd modd talu am gostau'r newidiadau a gododd yn ystod y cyfnod gwaith drwy wneud arbedion mewn manau eraill.
- 3.9 Roedd pethau eraill nad oeddent cystal â'r disgwyl, a'r rheini'n bennaf mewn cysylltiad â'r rhaglen ddwys ar gyfer gweithredu'r system yn swyddfeydd yr Aelodau a'u swyddfeydd etholaethol. Mae adroddiad llawn ar y gwersi a ddysgwyd wedi'i gynhyrchu ar sail yr atborth a roddwyd i'r tîm prosiect mewn nifer o weithdai. Ceir trosolwg ohono yn Atodiad B.

Manteision y prosiect

3.10 Caiff pob un fantais a fwriadwyd ei hadolygu gan Bennaeth TGCh a Darlledu i sicrhau y caiff ei darparu yn ôl y disgwyl.

3.11 Mae'r manteision a fwriadwyd gennym o ganlyniad i'r prosiect wedi'u crynhoi isod:

- gallu cysylltu'n gwell, yn enwedig o swyddfeydd etholaethol:
Wedi'i ddarparu: Nodwyd cyflymder gwell wrth gysylltu. Mae'r gallu i gysylltu o gyfrifiaduron cartref hefyd yn gwella'r cyfleusterau i weithwyr o bell;
- defnyddio adnoddau mewn modd mwy cydgysylltiedig drwy roi Aelodau, eu staff a staff y Cynulliad ar yr un rhwydwaith, gan gynyddu gweithio'n effeithiol:
Wedi'i ddarparu: Mae pawb ar yr un rhwydwaith, ac mae gwelliant o ran effeithiolrwydd yn dibynnu ar newidiadau i ffyrdd o weithio a darparu prosiectau arfaethedig, fel prosiect system rheoli busnes y Cynulliad;
- darparu llwyfan annibynnol ar gyfer darparu gwasanaeth integredig, i gael gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost effeithiol ac effeithlon posibl:
Wedi'i ddarparu: Mae ein systemau bellach yn annibynnol ar systemau Llywodraeth Cymru ac rydym mewn sefyllfa i wneud ein penderfyniadau ein hunain am ddarparu gwasanaeth yn y tymor byr a'r hirdymor. Mae newidiadau i wasanaethau yn y tymor byr yn cael eu negodi;
- moderneiddio'r ystâd TGCh, gan ddarparu'r dechnoleg ddiweddaraf i wella ymgysylltiad â'r cyhoedd:
Wedi'i ddarparu: Mae gwaith yn digwydd i fanteisio i'r eithaf ar y gwelliannau y mae'r system yn eu cynnig o ran ymgysylltu â'r cyhoedd; a
- parhad busnes gwell a system gadarnach:
Wedi'i ddarparu: Mae ail ganolfan ddata yn Nhŷ'r Cwmnïau yn sicrhau bod system gadarn wrth gefn pe digwydd problemau ym mae Caerdydd, sy'n galluogi lleoliadau pell

CCCC 2011 (Papur 4 Rhan 1)
Uno rhwydwaith TGCh y Cynulliad (UNO)

fel swyddfeydd etholaethol a chyfrifiaduron cartref i barhau
i weithio.

Trosolwg ar gostau Prosiect UNO

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg ar gostau prosiect UNO. Mae dadansoddiad manwl o gostau'r prosiect wedi'i gofnodi ar daenlenni cyllidebol y prosiect, fel y'u cofnodwyd yn y ddogfen cloi'r prosiect a'r dogfennau am brosiect UNO.

Dadansoddiad o'r gost

Cofnodwyd y costau gyda dadansoddiad o gostau Siemens a chostau allanol, sydd yn eu tro wedi'u dadansoddi a'u rhannu'n isadrannau. Mae manylion y costau terfynol i'w gweld yn y tablau isod:

Costau Allanol	
Staff allanol	£172,013.00
Morgan Cole	£68,910.77
Hyfforddiant	£11,153.61
Swyddfa Archwilio Cymru	£4,626.45
Tŷ'r Cwmnïau	£36,724.63

Cyfansymiau Allanol	£293,428.46
----------------------------	--------------------

Costau Cyfalaf	
Adnoddau Siemens	£1,645,150.84
Caledwedd Siemens	£1,189,707.99
Caledwedd HP	£378,206.77
Meddalwedd	£349,205.74
Trwyddedau MS	£176,848.00
Cylchedau GF	£223,978.00
Cyfansymiau Cyfalaf	£3,963,097.34

Cyfansymiau cronol	£4,256,525.80
---------------------------	----------------------

Hefyd, roedd cyfrifon y Cynulliad ar gyfer 2009-10 yn cynnwys cyfalafiad o £0.538 miliwn o gostau trwyddedau meddalwedd.

Mae'r tabl uchod hefyd yn cynnwys y costau ychwanegol a ddaeth i'r amlwg dros gyfnod y prosiect ond nas ragwelwyd yn y gyllideb wreiddiol. Cafodd y costau hyn eu talu drwy ddod o hyd i arbedion a thrwy leihau costau eraill:

£15,926.35	Caledwedd
£11,153.61	Hyfforddiant
£18,677.69	Uwchraddio Meddalwedd
£41,442.70	Gweithiwr achos
£8,182.35	Uwchraddio HiPath
£17,962.00	Uned aerdymheru
£113,344.70	Cyfanswm

Costau a ddygwyd ymlaen

Mae rhai costau sy'n deillio o'r gwaith y bydd angen eu talu pan fydd y prosiect wedi dod i ben yn swyddogol. Bydd angen cyllido'r costau hyn, neu bydd angen iddynt gael eu hamsugno gan gyllideb fel a ganlyn:

Teitl	Rheswm	Swm
Rhent chwarterol Cylchedau BT	Daw'r arian rhent am gylchedau yn ddyledus yn y ddwy flwyddyn ariannol nesaf	£55,000 - 2010-11 £110,000 - 2011-12
Morgan Cole	Mae swm yn weddill a fydd o bosibl ei angen i dalu costau cyfreithiol cadarnhau'r cytundeb gwasanaeth newydd â Siemens	£39,000 - 2010-11

Cytunwyd y byddai Pennaeth TGCh a'r Rheolwr Darlledu yn gyfrifol am sicrhau y cofnodir unrhyw newidiadau i'r costau uchod.

Prosiect UNO – Crynodeb o'r Gwersi a Ddysgwyd

Mae canlyniadau llawn y gweithdai Gwersi a Ddysgwyd wedi'u rhannu â Bwrdd Newid y Cynulliad er mwyn ceisio sicrhau bod prosiectau yn y dyfodol yn defnyddio'r hyn a ganfuwyd.

Cyfathrebu

Argymhellir targedu'r dulliau cyfathrebu yn fwy penodol at bob grŵp o ddefnyddiwr, gan eu haddasu yn ôl yr angen. Dylid ceisio mewnbwn yr ochr Fusnes cyn datblygu cynlluniau cyfathrebu.

Rheoli'r Prosiect a Llywodraethu

Mae bwrdd prosiect cryf yn sicr yn gaffaeliad i unrhyw brosiect. Mae cyfathrebu agored ac onest o fewn timau prosiect, ac yna rhwng y timau prosiect a'r bwrdd prosiect, yn hanfodol. Un person ddylai reoli holl gyllid unrhyw brosiect, boed hwnnw'n gynrychiolydd o'r ochr gyllidol neu'n Rheolwr y Prosiect.

Hyfforddiant

Wrth gyflwyno trefn neu dechnoleg ddiweddar am y tro cyntaf, nad yw'n debygol y bydd unrhyw brofiad blaenorol gan ddefnyddwyr, argymhellir cynnal asesiad effaith llawn o'r amserlen hyfforddi cyn gweithredu. Argymhellir hefyd fod yr hyfforddiant i Aelodau'r Cynulliad wedi'i bersonoli'n well, gydag amserlen hyfforddi ar wahân sy'n cael ei datblygu mwy gydag amser ac sy'n cael ei chorffori yn y rhaglen hyfforddi gyffredinol.

Technegol

Argymhellir y dylid safoni'r prosesau a'r trefniadau ar gyfer y gwaith profi a derbyn gan ddefnyddwyr, gan gynnwys mewnbwn y cwsmer i raddau mwy helaeth ym mhob cam o'r broses profi. Dylid ystyried gweithredu dull a methodoleg sy'n hwyluso casglu data er gwybodaeth i ddefnyddwyr busnes mewn modd sy'n llai agored i wallau.

Gweithredu'r rhaglen

Yr arfer safonol gorau ar gyfer rheoli prosiectau yw datrys y problemau sy'n dod i'r amlwg yn y cyfnod profi cyn gweithredu'r prosiect ymhellach. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, oherwydd terfynau amser tyn, nid oedd modd gwneud hynny. Felly, yn y dyfodol, dylid cynnal asesiad llawn o'r effaith os

yw'r broblem hon yn codi eto. Rhaid caniatáu digon o amser rhwng y cyfnod profi a gweithredu'r prosiect yn llawn.